**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Mercher, Gorffennaf 31$^{ain}$, 2024 am 6.30 yh.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol** | | | |
| Cynghorwyr | Cyng C. R. Thomas | Cyng G. J. Davies | Cyng H. Davies |
| | Cyng D. W. Hopkins | Cyng R. A. Davies | Cyng J. Tandy |
| | Cyng E. W. Nicholas | Cyng R. Barnes | Cyng N. C. Davies |
| | Cyng A. L. Thomas | Cyng A. J. Evans | Cyng S. Roberts |
| **Yn mynychu arlein** | Cyng K. D. L. Davie | Cyng D. Thomas | |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng E. J. Davies | Cyng A. W. Jones | Cyng P. H. Roberts |

**476.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.**

Roedd y cynghorwyr canlynol wedi cynnig eu hymddiheuriadau:
y Cyng E. J. Davies, Cyng A. W. Jones, Cyng P. H. Roberts.

**477.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT.**

Dim.

**478.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Statudol, a gynhaliwyd ar Fehefin 26$^{ain}$, 2024.
  Cynigiwyd gan: y Cyng R. A. Davies, eiliwyd gan y Cyng D. Thomas
- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Orffennaf 17$^{eg}$, 2024:
  Cynigiwyd gan y Cyng H. Davies, eiliwyd gan y Cyng J. W. Tandy
- Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd ar Orffennaf 29$^{ain}$, 2024.
  Cynigiwyd gan y Cyng S. Roberts, eiliwyd gan y Cyng A. J. Evans

**479.**

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cynigiwyd diweddariad gan y Clerc o'r argymhellion yn eitem 473 o gofnodion Pwyllgor yr Amgylchedd yn nhermau ei weithredoedd. Dywedodd ei fod eisoes wedi

cwrdd â Matthew Collinson o'r Cyngor Sir, a bod y prosiect bach ym Manc y Ddraenen wedi dechrau erbyn hyn, gydag arian a gwaith wedi'i gynnig i ni gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Roedd y gwaith i gwblhau plannu perthi, coed a bylbiau ar y gweill, ynghyd â gosod dwy fainc newydd a menter gan Weithdy Scholl i greu bocsys ar gyfer ystlumod ac adar; bydd adroddiad ecoleg yn cael ei gwblhau yn ystod y misoedd nesaf

**480.**

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

**481.**

**GOHEBIAETH**

**(i) Adroddiad Trosedd yr Heddlu**

Eglurodd y Clerc bod yr adroddiadau trosedd wedi dechrau cael eu diweddaru yn fisol ar Wefan Trosedd yr Heddlu, ac roedd y canlynol wedi dod i law:

**Adroddiadau'r Heddlu ar Fehefin 1af, 2024**

| **Ardal Llandybïe** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **16** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **3** |
| Bwrgleriaeth | **2** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **2** |

| **Penygroes gan gynnwys Blaenau a Chaerbryn** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **2** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **1** |
| Lladrad | **1** |
| | |

| **Saron a Chapel Hendre** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | 7 |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | 4 |

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Bwrgleriaeth | 2 |
| Troseddau Eraill | 2 |

Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

Llandybie | Police.uk (www.police.uk)

**483.**

**Adroddiad y Clerc 25/07/24**

**AT: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau:**

**((i) Saron a Chapel Hendre, Adran 106. Yn dal ar y restr i'w ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad ynghylch y ddau swm, sef £22,320.00 ar gyfer darpariaeth addysg at y dyfodol yn Saron, a £17,680.00 ar gyfer Parc Cwmgwili. Mae'r Clerc yn gwasgu ar y Cyngor Sir am ymateb cyn y Cyfarfod Cyllideb ym mis Medi.

**(b) Llwybrau Troed. Nid oes unrhyw ddiweddariadau ynghylch y Llwybrau Troed isod.**

Mae'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol yn dal i bwyso ar dîm y Cyngor Sir ynghylch y llwybrau troed canlynol ac yn bwriadu cadw'r rhain yn Adroddiad y Clerc tan eu bod wedi'u datrys.

- **Caerbryn 51/56;** Mae'r Clerc wedi gofyn am ymateb oddiwrth dîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir yn gofyn os oes modd gwaredu peth o'r pridd, ac o dop y llwybr troed sy'n dynesu.
- **Penygroes 51/34 a 51/35, 51/33;** Tra bod ein contractwr yn ystyried 51/34, mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn archwilio 51/33 er mwyn cael y perchennog i dorri'r canghennau sy'n bargodi dros y llwybr; mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am ddiweddariad. Mae 51/35 yn dal i gael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad Gilfach Iago. Mae'r Swyddog Gweinyddol wedi dilyn hyn i fyny drwy ofyn am ddiweddariad.
  - **51/51**; Mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn dal i ddelio â hyn oherwydd bod preswylydd wedi adeiladu sail i garej ar draws yr hawl tramwy cyhoeddus, ac mae preswylydd arall wedi gosod offer chwarae drosto.

Cadeirydd

- **(c) Clwb Rygbi Penygroes a chloi'r gât gyda'r nos.**
  Yn unol â'r penderfyniad a wnaethpwyd yng nghyfarfod mis Mai, mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn os y byddant yn derbyn cyfrifoldeb am ddifrod a achosir i dir ac eiddo'r Cyngor Cymuned pe byddai'n cael ei ddifrodi dros nos. Mae'n dal i aros am ymateb.

**(ch) Prosiect Park Banc Y Ddraenen:**

O ganlyniad i'r ymateb gwan a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, 'rydyn nawr yn ystyried prosiect llai o faint. Mae'r Clerc wedi cwrdd â Chyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cynnig ariannu mwy o blannu coed, dwy fainc blannu ychwanegol a gosod perth ar hyd y perimedr; disgwylir rhestr lawn drwy ebost yn y man. Hefyd mae'r Sir wedi cynnig trefnu gweithdy Bocsys Ystlumod a Bocsys Adar gyda'r ysgolion lleol, ac am gynghori ynghylch plannu'r ddôl a chynghori ynghylch gwella'r torri glaswellt tymhorol er mwyn gwasanaethu'r tymhorau nythu a blodeuo yn well.

**(d) Y Cynllun Busnes Rheoli Asedau.**

Mae'r Clerc wedi llunio cynllun drafft ar ffurf taenlen i'w hebostio at y Cynghorwyr. Bydd y Clerc hefyd yn awgrymu ei fod yn cael ei drafod mewn manylder yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Medi.

**(dd) Ein harchifau.**

Mae'r Swyddog Gweinyddol yn y broses o drefnu cynllun gweithredu i'w osod gerbron y Cynghorwyr ynghylch sicrhau bod ein harchifau'n cael eu cadw'n ddiogel at ddefnydd cenedlaethau'r dyfodol.

**(e) Teledu Cylch Cyfyng Parc Saron.**

Ar hyn o bryd mae'r Clerc, yng nghwmni swyddogion cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, yn gwirio lleoliad y tŵr Teledu Cylch Cyfyng.

**(f) Gwerthusiad Swydd.**

Erbyn hyn mae'r Gwerthusiad Swyddi'r Staff, y gofynnwyd ei fod yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Cyflogaeth, a'i ddilysu gan y Cyngor Llawn, bron â dod i'w derfyn gan fod y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol wedi cwblhau'r ffurflenni gwerthuso manwl ac wedi'u hanfon at Paul Egan yn Un Llais Cymru.

**(ff) Diweddariad ynghylch Grant Cymunedol.**

Mae'r Swyddog Gweinyddol wedi anfon llythyron at yr holl grwpiau sydd wedi derbyn nawdd blaenorol, a'r partïon amrywiol sydd â diddordeb ac, ar hyn o bryd, mae wrthi'n coladu'r ymatebion. Y dyddiad cau ar gyfer geisiadau yw canol Awst 2024, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Cyllid ym mis

Medi. Unwaith bod y Cyngor Llawn wedi dilysu’r cyfan, cynhelir noson gyflwyno’r sieciau, mewn lleoliad sydd eto i’w benderfynu. Tro Ward Llandybïe yw hi eleni.

Dai Nicholas – Clerc

Gorffennaf 25ain 2024

**484.**

**Diweddariad ynghylch y sedd wag yn Ward Heol Ddu.**

Eglurodd y Clerc nad oedd yr hysbyseb etholiad am sedd wag wedi arwain at unrhyw gystadlu, a bod yr hysbysebion a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Etholiadol Cyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnig y cyfle i unigolion oedd am ddangos diddordeb i ymgeisio i’w cyfethol wedi’u cyhoeddi ac wedi’u harddangos ar Wefan ac ar Hysbysfyrddau y Cyngor Cymuned.

Roedd y Cyng J. W. Tandy wedi cynnig ein bod ni, fel Cyngor Cymuned, yn gosod hysbyseb ar ein gwefan a’n hysbysfyrddau, yn cynnig y cyfle i unigolion ysgrifennu at y Clerc er mwyn gwneud cais i gael eu hystyried i’w cyfethol, a bod y Cynghorwyr yn penderfynu canlyniad y cyfetholiad mewn cyfarfod arbennig a gynhelir yn gynnar ym mis Medi.

**Eiliwyd** y cynnig hwn gan y Cyng A. J. Evans.

Trafodwyd y mater a **phenderfynwyd** bod y Clerc yn ysgrifennu’r hysbysebion awgrymedig cyn diwedd yr wythnos gyfredol, ac yna’n ebostio unrhyw lythyron cais a dderbynir ar diwedd y cyfnod o dair wythnos at y Cynghorwyr. Yna, byddai’r Cynghorwyr yn cael y cyfle i bleidlesio neu gyfethol unigolyn addas mewn cyfarfod cyfethol arbennig. Cytunwyd trefnu dyddiad y cyfarfod i gyd-fynd â chyfarfod y Pwyllgor Cyflogaeth a gynhelir yn gynnar ym mis Medi.

**485.**

**Diweddariad ynghylch y sedd wag yn Ward Penygroes.**

Eglurodd y Clerc nad oedd yr eitem ar yr agenda oherwydd bod y mater ond wedi codi yn ystod y diwrnod gwaith diwethaf. Cytunodd y Cadeirydd i’w gynnwys a gofynnodd am ddiweddariad gan y Clerc.

Eglurodd y Clerc bod y Cyng S. E. Thomas wedi ei hysbysu drwy ebost ei bod yn ymddiswyddo, ar unwaith, o brynhawn dydd Llun ymlaen, a hynny am resymau gwleidyddol. Roedd wedi hysbysebu’r Swyddfa Gwasnaethau Etholiadol, Cyngor Sir Caerfyrddin, er mwyn cydymffurfio â phrotocol, ac roedden nhw yn eu tro wedi cyhoeddi hysbyseb o swydd wag, i’w arddangos heb fod yn hwy nag Awst 5ed, 2024,

Cadeirydd

gyda dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar Awst 23ain, 2024. Yn unol â phrotocol, roedd rhain wedi'u harddangos ar Wefan ac hysbysfyrddau'r Cyngor Cymuned.

Roedd y Cyng K. D. L. Davies am iddo gael ei nodi ei bod yn teimlo bod hyn yn newyddion trist, ac oedd am ganmol y Cyng S. E. Thomas am ei gwaith diflino a'r gwasanaeth cyhoeddus roedd wedi gwneud ar ran Cyngor Cymuned Llandybïe, a bod Ward Penygroes yn colli Cynghorydd da a gwybodus dros ben.

Cynigiodd y Clerc nodi hyn yn y cofnodion ac ymddiheuriodd, gan ddweud y dylai fod wedi sôn ei fod ef a'r Cadeirydd, ar ran y Cyngor Cymuned, yn y broses o ysgrifennu llythyr o ddiolch at y Cyng S. E. Thomas.

**486.**

**Diweddariad ynghylch y Cynllun Asedau a'r Ceisiadau am Gyllideb.**

Cafwyd diweddariad byr gan y Clerc a dywedodd ei fod, erbyn hyn, wedi cwrdd â'r holl wardiau ac yn coladu'r syniadau a'r ceisiadau am gyllideb, a byddai'n diweddaru'r cynllun asedau i'w ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Cyllid, a fydd yn cyfarfod ym mis Medi, a byddai'n argymell i'r pwyllgor hwnnw sut y dylid gwario'r gyllideb dros y 5 mlynedd nesaf.

**487.**

**Diweddariad ynghylch yr ymateb i'r cais 20 mya i Lywodraeth Cymru.**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi cwblhau ei sylwadau ynghylch y terfyn cyflymdra 20 mya y gofynnwyd amdano gan Weinidog Llywodraeth Cymru Ken Skates, ac roedd wedi dosbarthu'r ddogfen, ynghyd â llythyr oddiwrth Mr Andrew R. Wilson, a oedd wedi annerch Cyfarfod Cyffredin mis Mehefin, cyn y cyfarfod ei hun.

Gofynnodd y Cyng J. W. Tandy os oed modd iddo ebostio sylw arall, gan fod dal mis i fynd cyn dyddiad cau cyflwyno'r wybodaeth.

**Penderfynwyd** derbyn y ddogfen unwaith bod y Cyng J. W. Tandy wedi cyflwyno ei sylwadau at y Clerc i'w cynnwys, a bod llythyr Mr Andrew R. Wilson yn cael ei gyflwyno fel ymateb swyddogol oddiwrth Cyngor Cymuned Llandybïe at y Gweinidog.

**488.**

**Diweddariad Gilfach Iago**

Dywedodddd y Clerc nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach i'w gofnodi. Cadarnhawyd hyn gan y Cynghorydd D. Thomas.

____________________________

Cadeirydd

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn adrodd yn ôl ynghylch unrhyw gynnydd i Gyfarfodydd yn dyfodol.

**489.**

**(i) Monitro'r gyllideb yn fisol.**

**INCWM hyd at Orffennaf 25ain**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Praesept | 180000.00 | 60000.00 | **-120000.00** |
| Ffurflen TAW (Ad-daliad) | 17000.00 | 14613.18 | **-2386.82** |
| Llog banc | 800.00 | 322.50 | **-477.50** |
| Cytundebau Llogi/Grantiau/ Adran 106 | 4700.00 | 34,311.29 | **19426.17** |
| **Cyfanswm** | 202500.00 | 109,246.97 | **-93253.03** |

**GWARIANT hyd at Orffennaf 25ain**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Torri'r glaswellt | £31,500.00 | £12,023.25 | **£19,476.75** |
| Cyflogau staff a PAYE | £61,864.00 | £19,716.19 | **£42,147.81** |
| Gwasanaethau swyddfa | £6,000.00 | £5,229.20 | **£770.80** |
| Yswiriant | £2,500.00 | £3,240.60 | **-£740.60** |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd) | £20,000.00 | £6,210.00 | **£13,790.00** |
| Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau Cyhoeddus, adeiladau, parciau, hawliau tramwy cyhoeddus, claddfeydd) | £54,500.00 | £35,708.49 | **£18,791.51** |
| Gwasanaethau a Thanysgrifiadau | £6,050.00 | £0.00 | **£6,050.00** |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £15,875.00 | £977.00 | **£14,898.00** |

Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau etholiad | £16,000.00 | £8,028.26 | **£7,971.74** |
| Adran 137 | £20,000.00 | £0.00 | **£20,000.00** |
| Goleuo | £6,000.00 | £0.00 | **£6,794.00** |
| Datblygu Cymunedol | £15,000.00 | £603.13 | **£14,396.87** |
| **Cyfanswm** | £255,289.00 | £91,736.12 | **-£163,552.88** |

**Taliadau o Fehefin 26ain hyd at Orffennaf 25ain, 2024**

| | | |
|---|---|---|
| 01/07/2024 | BT M019R8 Band Llydan y Ffôn, Mehefin, gan gynnwys £44.00 A/Charge | 98.20 |
| 01/07/2024 | Martin Davies, cyfieithu cofnodion Pwyllgor Cyflogaeth Hydref | 40.30 |
| 01/07/2024 | Cyngor Cymuned Llannon, Arolygu'r Parciau 4 gwaith, 11 parc | 1415.15 |
| 01/07/204 | Newhall Janitorial, papur tusw a nwyddau mewn 2 doiled | 235.39 |
| 01/07/2024 | Morgan & Morgan, Llungopïwr am 2 fis, Mawrth a Mehefin | 10.18 |
| 01/07/2024 | Morgan & Morgan, Ffeibr a Band Llydan yn y Siambr, 1 mis | 35.99 |
| 01/07/2024 | Morgan & Morgan, 2 Lechen TG ychwanegol | 351.19 |
| 01/07/2024 | KD Gardening Services, glanhau'r toiledau x 2 | 862.50 |
| 01/07/2024 | Cyllid y Wlad, Taliad mis Mehefin | 1005.54 |
| 01/07/2024 | Hefin Jones, Cyfieithu'r cyfarfodydd misol tair gwaith | 255.00 |
| 01/07/2024 | Dŵr Cymru, Pafiliwn Chwareuon, Tachwedd hyd at Fai | 321.02 |
| 01/07/2024 | FC Bookbinder, Cofnodion Blynyddol | 170.00 |
| 01/07/2024 | Proludic, siglenni yng Ngors Ddu ac Heol Spien, offer yn unig | 4891.97 |
| 16/07/2024 | Cyllid y Wlad, Taliad mis Gorffennaf | 1056.54 |
| 16/07/2024 | Sian Taylor, Cyflog mis Gorffennaf | 793.65 |
| 16/07/2024 | D. Nicholas, Cyflog mis Gorffennaf | 2426.20 |
| 16/07/2024 | Martin Davies, Cyfieithu cofnodion Cyfarfod Cyffredin mis Mehefin | 203.06 |
| 16/07/2024 | Morgan & Morgan, 10 gorchudd i'r Llechi TG | 336.00 |
| 16/07/2024 | Morgan & Morgan, 2 orchudd ychwanegol i'r Llechi TG | 67.20 |
| 16/07/2024 | EDF Energy, Trydan, Pafiliwn Penygroes | 0.76 |
| 16/07/2024 | EDF Energy, Llifoleuadau Hendre | 0.76 |
| 16/07/2024 | EDF Energy, trydan ym Mhafiliwn Llandybïe | 47.02 |
| 16/07/2024 | EDF Energy, trydan ym Mhafiliwn Saron | 0.50 |
| 16/07/2024 | EDF Energy, trydan yn Sied Fowlio Llandybïe, dau fis | 77.15 |
| 19/07/2024 | Dynevor Tree Services, torri llwybr ger Ysgol Gynradd Llandybïe, anfoneb 364 | 80.00 |
| 19/07/2024 | Dynevor Tree Services, Toriadau cyntaf Cytundeb 1 - 9 anfoneb 371 | 2860.00 |
| 25/07/2024 | J J Handyman, gwaith cydymffurfio ym Mharc Saron 0158 | 550.00 |
| 25/07/2024 | Martin Davies, cyfieithu cyfarfod mis Gorffennaf | 124.93 |
| 25/07/2024 | Martin Davies, cyfieithu cofnodion y Pwyllgorau | 113.75 |
| 25/07/2024 | Morgan & Morgan, Cetrysau Inc, 250724 | 18.67 |
| 25/07/2024 | Dynevor Tree Services, coed wedi cwympo, anfoneb 378 | 400.00 |

Cadeirydd

**Anfonebau a dderbyniwyd a sy'n Ddyledus i'w Talu**

| | | |
|---|---|---|
| Gorffennaf 26ain | BT | 58.20 |
| Gorffennaf 26ain | K. D. Landscaping, gwasanaethu'r Toiledau ym mis Gorffennaf | 891.25 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR CYMUNED / LLANDYBIE COMMUNITY COUNCIL** | | | | | |
| **Mantolen o Ebrill 1af, 2024-2025 / Accounts from April 1st** | | | | | |
| | | | | | |
| **Paratowyd gan - D Nicholas** | | | | | |
| **Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31/3/2025** | | | | | |
| **BALANS Y CYFRIFON** | | | | | |
| | | | | | **£** |
| | | | | | |
| **Dygwyd ymlaen (balans cychwynnol yn y banc)** | | | | | **£260,860.83** |
| | | | | | |
| **Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn** | | | | | **£109,246.97** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | **£370,107.80** |
| | | | | | |
| **Llai y gwariant** | | | | | **£91,736.12** |
| | | | | | |
| **Balans wrth Gau'r Daenlen Gyllid** | | | | | **£278,371.68** |
| **(derbyniadau - taliadau)** | | | | | |
| | | | | | |
| **Taliadau/ Sieciau na's cyflwynwyd** | | | | | £300.00 |
| | | | | | |
| **GWIR FALANS Y DATGANIAD** | | | | | **£278,371.68** |

Cynigiwyd derbyn yr adroddiad ariannol gan y Cyng S. Roberts, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng R. Barnes.

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Clerc.

**490.**

**Cynllun Pensiwn y Staff - diweddariad.**

Cafwyd diweddariad gan y Clerc fel y gofynnwyd amdano yng nghofnodion Mehefin 26ain, 2024, ac eglurodd er nad oedd yn ffafrio'r cynllun pensiwn NEST, ei fod o'r farn bod cyfeiriad at y cynllun hwn yn ei gytundeb cyflogaeth, ac yng nghytundeb cyflogaeth y Swyddog Gweinyddol.

Yr ymyrraeth yn rhain oedd cyfraniad o 3% gan y cyflogwr, yn yr achos hwn y Cyngor Cymuned, a 2% o gyflog y staff.

Roedd y Cyng D. Thomas yn anghytuno taw dyma oedd y ffordd orau o weithredu, a nad oedd y cynllun NEST, yn ei farn ef, er lles gorau gweithwyr a dylai'r Cyngor

Cadeirydd

Cymuned ddilyn esiampl llawer o'r Cynghorau Cymuned lleol a'r Cyngor Sir a bod yn rhan o Gynllun Pensiwn Dyfed. Cefnogwyd hyn gan y Cyng C. R. Thomas.

Eglurodd y Clerc y byddai hyn yn golygu bod angen newid y cytundeb cyflogaeth, ond y byddai rhaid bod y Pwyllgor Cyflogaeth yn cytuno ar hyn, a'r Cyngor Llawn yn dilysu'r penderfyniad.

Awgrymodd y Cyng R. A. Davies bod hyn y fater i'r Pwyllgor Cyflogaeth, ac awgrymodd bod dyddiad yn cael ei drefnu ar gyfer cynnal Pwyllgor ym mis Medi; byddai modd gosod unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor ar agenda Cyfarfod Cyffredin mis Medi.

**Penderfynwyd** trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyflogaeth ym mis Medi er mwyn archwilio'r mater ymhellach, ac argymell ffordd ymlaen gerbron y Cyngor Llawn.

**491.**

**Cyllid Adran 106.**

Cynigiodd y Cynghorydd D. Thomas yr wybodaeth ei fod wedi mynychu digwyddiad hyfforddi ynghylch Cyllid Adran 106 a drefnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Roedd o'r farn taw'r pwynt alleddol oedd bod angen i aelodau, yn enwedig aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ac aelodau ar lefel sirol, ymyrryd gyda cheisiadau am ddyraniad Adran 106 adeg derbyn ceisiadau cynllunio; wedi hynny roedd risg na fyddai'r dyraniad yn ffitio gyda'r hyn a oedd ei angen gan y gymuned, a byddai felly'n cael ei wthio arnom ni fel Cyngor Cymuned.

**492.**

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Roedd y Cadeirydd wedi cyflwyno adroddiad cadarnhaol dros ben ynghylch mynychu digwyddiad Ffrindiau Ysbyty Glanaman ym mis Gorffennaf. Roedd yr ymweliad wedi bod yn fuddiol iawn.

**493.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mercher, Medi 25ain, 2024. Roedd y Clerc hefyd wedi gwneud cais bod Cyfarfod Cyfethol Arbennig, cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid, a chyfarfod o'r Pwyllgor Cyflogaeth yn cael eu trefnu i'w cynnal ar ddydd Mercher, Medi 4ydd. Cytunwyd bod rhain yn cael eu cynnal am 6.30 yh, 6.45 yh a 7.15 yh.

**494.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.12 yh.

______________________________

Cadeirydd